

# Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cyfarfod Arbennig)

18 Mai 2022

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Mrs J James,  
Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrrhaeddodd Mr GA Jones cyn ystyried yr adroddiad.]

(Cyfarfod rhithiol: 2.00p.m. – 3.40p.m.)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans a'r Cynghorydd A Wilcox.

## 2. Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 3. Eithrio'r Cyhoedd

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

## 4. Penodi Cyfarwyddwr

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd presennol y Parc wedi cyflwyno ei hymddiswyddiad. Gan fod penodi Cyfarwyddwr yn dasg a ddirprwywyd gan yr Awdurdod i Aelodau'r Pwyllgor Adnoddau Dynol, gofynnwyd felly iddynt gytuno ar y broses.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried nifer o faterion, gan gynnwys yr angen am y rôl a gofynion y swydd. Cytunodd yr Aelodau ei bod yn bwysig recriwtio i'r swydd, ond y dylid bod yn ofalus wrth bennu'r gofynion i annog maes eang o ymgeiswyr. Nodwyd bod yna fanteision i ddefnyddio y teitl Cynllunio yn hytrach na Chreu Lleoedd ar gyfer recriwtio. Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu'r broses recriwtio, oedd yn cynnwys defnyddio ymgynghorydd recriwtio, a'r amserlen.

Gan y byddai Cynghorwyr newydd yn cael eu hethol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cyngor Sir Penfro cyn hir, mynegwyd peth pryder y byddai'r Pwyllgor Adnoddau Dynol fyddai'n cyfweid y Cyfarwyddwr yn cynnwys Aelodau gwahanol i'r rhai oedd wedi cytuno ar fanyleb y swydd. Awgrymwyd felly y dylid gofyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol benodi Panel Penodi Cyfarwyddwr sy'n



cynnwys yr Aelodau hynny o'r Pwyllgor oedd yn bresennol y diwrnod hwnnw, ac oedd yn parhau ar yr Awdurdod, i symud y broses yn ei blaen.

[Cyflwynodd Dr R Heath-Davies ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Ymddiheurodd y Cynghorydd M James hefyd bod yn rhaid iddo adael y cyfarfod cyn cynnal y bleidlais. Llywyddwyd gweddill y cyfarfod gan Mrs J James, y Dirprwy Gadeirydd.]

**Penderfynwyd:**

- a) Cytuno i recriwtio Cyfarwyddwr i'r portffolio Creu Lleuedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu;
- b) Cytuno ar ofynion y swydd, fel y nodir yn yr adroddiad;
- c) Cytuno ar wasanaethau'r ymgynghorydd recriwtio, Gatenby Sanderson;
- d) Dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r broses recriwtio i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Adnoddau Dynol.
- e) Gofyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol benodi Aelodau o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol oedd yn bresennol y diwrnod hwnnw, ac oedd yn parhau ar yr Awdurdod, ar Banel Penodi Cyfarwyddwr er mwyn cynnal dilyniant.

**5. Ailstrwythuro**

Cafwyd trafodaeth fer ar yr hyn yr oedd Aelodau'n disgwyl ei dderbyn cyn cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Dynol ar 25 Mai 2022 fyddai'n ystyried canlyniadau'r ymgynghori â'r staff ar yr ailstrwythuro. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau ar y broses, ymgynghori, strwythur y sefydliad, cynllun integreiddio ac elfennau ariannol. Atebodd y swyddogion mai'r gobaith oedd y byddai'r meysydd hyn yn cael sylw yn yr adroddiad oedd yn cael ei baratoi ar y pryd. Awgrymwyd hefyd y dylid rhannu'r strwythur diwygiedig â'r Aelodau eraill nad oedd yn aelodau o'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y camau ymlaen, gan ddweud bod cyfathrebu yn allweddol mewn unrhyw broses o reoli newid.

**Nodwyd.**

